Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Recriwtio a'r Gymraeg

26 Gorffennaf 2017

**Cais am wybodaeth**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 4 Gorffennaf, pan wnaethoch ofyn:

*A wnewch chi roi'r wybodaeth a ganlyn imi mewn perthynas â'ch sefydliad:*

1. *Nifer y swyddi llawn amser (parhaol a chyfnod penodol) lle nodir bod y Gymraeg yn 'Hanfodol' ar y swydd-ddisgrifiad*
2. *Nifer y swyddi rhan amser (parhaol a chyfnod penodol) lle nodir bod y Gymraeg yn 'Hanfodol' ar y swydd-ddisgrifiad*
3. *Nifer y swyddi llawn amser (parhaol a chyfnod penodol) lle nodir bod y Gymraeg yn 'Ddymunol' ar y swydd-ddisgrifiad*
4. *Nifer y swyddi rhan amser (parhaol a chyfnod penodol) lle nodir bod y Gymraeg yn 'Ddymunol' ar y swydd-ddisgrifiad*
5. *Nifer y swyddi llawn amser (parhaol a chyfnod penodol) lle na nodir unrhyw ofynion sgiliau iaith ar y swydd-ddisgrifiad*
6. *Nifer y swyddi rhan amser (parhaol a chyfnod penodol) lle na nodir unrhyw ofynion sgiliau iaith ar y swydd-ddisgrifiad*

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y tabl isod yn cyfeirio at nifer y swyddi a hysbysebwyd dros gyfnod o 12 mis (Mehefin 2016 – Mehefin 2017).

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Nifer y swyddi llawn amser (parhaol a chyfnod penodol) lle nodir bod y Gymraeg yn 'Hanfodol' ar y swydd-ddisgrifiad | 41 |
| 2. | Nifer y swyddi rhan amser (parhaol a chyfnod penodol) lle nodir bod y Gymraeg yn 'Hanfodol' ar y swydd-ddisgrifiad | 1 |
| 3. | Nifer y swyddi llawn amser (parhaol a chyfnod penodol) lle nodir bod y Gymraeg yn 'Ddymunol' ar y swydd-ddisgrifiad | 46 |
| 4. | Nifer y swyddi rhan amser (parhaol a chyfnod penodol) lle nodir bod y Gymraeg yn 'Ddymunol' ar y swydd-ddisgrifiad | 0 |

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 0300 200 6544
E-bost/Email: MynediadAtWybodaeth@Cynulliad.cymru
Assembly-Accesstoinformation@assembly.wales

**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

| | | |
|---|---|---|
| 5. | Nifer y swyddi llawn amser (parhaol a chyfnod penodol) lle na nodir unrhyw ofynion sgiliau iaith ar y swydd-ddisgrifiad | 13 |
| 6. | Nifer y swyddi rhan amser (parhaol a chyfnod penodol) lle na nodir unrhyw ofynion sgiliau iaith ar y swydd-ddisgrifiad | 0 |

**Noder** - mae mwyafrif y swyddi yn cael eu hysbysebu fel swyddi llawn amser, ond rhoddir ystyriaeth bob amser i drefniadau gwaith rhan amser.

Ystyriwyd eich cais yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan yn www.cynulliadcymru.org/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/Pages/abt-foi-cop-pub.aspx Rhowch wybod imi os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch yr ymateb hwn. Os credwch fod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch cais am wybodaeth?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod yn briodol yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Mae egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion ar gael ar ein gwefan yn http://www.assembly.wales/cy/help/contact-the-assembly/con-complaint/Pages/con-complaint-procedure.aspx. Rhowch wybod imi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF